O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 713 (Cy. 74)

BWYD, CYMRU

CYFANSODDIAD A LABELU

Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1396 (Cy.141).

2. Wrth weithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 77/99/EEC ar broblemau iechyd sy'n effeithio ar gynhyrchu a marchnata cynhyrchion cig a chynhyrchion penodol eraill sy'n dod o anifeiliaid (rhoddwyd testun a atodir at Gyfarwyddeb y Cyngor 92/5/EEC, OJ Rhif L57, 2.3.92, t.1 yn lle testun Cyfarwyddeb 77/99/EEC), cafodd darpariaeth ei chynnwys yn Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004 gyda'r effaith, os gwerthir cynhyrchion cig o ymddangosiad penodol, fod yn rhaid i'r enw a ddefnyddir yn enw ar y bwyd ar labeli'r cynhyrchion gynnwys, at ddibenion Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 (O.S. 1996/1449, fel y'i diwygiwyd), ddangosiad ynghylch unrhyw startsh neu brotein a ychwanegwyd ac eithrio at ddiben technolegol yn unig. Yn dilyn diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 77/99/EEC, mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r gofyniad hwnnw (*rheoliadau 3 a 4).*

3. Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn o'r effaith y bydd y Rheoliadau hyn yn ei chael ar gostau busnes wedi ei baratoi a gellir cael copïau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd, CF10 1EW.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 713 (Cy. 74)

BWYD, CYMRU

CYFANSODDIAD A LABELU

Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed *11 Mawrth 2008*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *12 Mawrth 2008*

Yn dod i rym *6 Ebrill 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 16(1)(e) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno maent wedi rhoi ystyriaeth i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r

(**1**) 1990 p.16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 ac Atodlen 11, paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**2**) OJ Rhif. L31, 1.2.2002, t.1.
(**3**) OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4.

cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2008.

Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004

2. Diwygir Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) 2004(**1**) fel a ddarperir yn rheoliadau 3 a 4.

3. Yn lle paragraff (2)(b) o reoliad 5 (enw'r bwyd ar gyfer cynhyrchion cig penodol) rhodder y paragraff canlynol —

> "(b) unrhyw gynhwysyn ychwanegol nad yw is-baragraff (a) yn gymwys iddo, ac eithrio startsh, protein neu gynhwysyn a bennir yn Atodlen 3.".

4. Yn Atodlen 3 (cynhwysion ychwanegol nad oes angen eu dynodi yn enw'r bwyd mewn achos cynnyrch cig y mae rheoliad 5 yn gymwys iddo), caiff eitemau 6 a 7 a'r nodyn sy'n ymwneud â'r eitemau hynny eu dileu.

Gwenda Thomas

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

11 Mawrth 2008

(**1**) O.S. 2004/1396 (Cy.141).